

# The Record of Proceedings

## 06/12/2016

### 4. Statement: Energy

**Y Llywydd / The Llywydd**[BywgraffiadBiography](#)

*{English text emboldened to make reading easier in either language}*

Yr eitem nesaf ar ein hagenda ni yw'r datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar ynni. Ac rydw i'n galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i wneud ei datganiad—Lesley Griffiths.

**The next item on our agenda is the statement by the Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs on energy. And I call on the Cabinet Secretary to make her statement—Lesley Griffiths.**

**Lesley Griffiths**[BywgraffiadBiography](#) *Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig / The Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs*

**Diolch, Lywydd. Our energy system is going through significant change. This statement reflects this changing context, and sets out Welsh Government priorities in relation to energy.**

Diolch, Lywydd. Mae ein system ynni yn mynd drwy newid sylweddol. Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu'r cyd-destun newidiol hwn, ac yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag ynni.

**The Paris agreement is driving the international decarbonisation agenda. We are seeing rapid developments in renewables, storage and demand reduction. At COP22 in Marrakesh, I met leaders who've made progress in developing low-carbon societies more resilient in coping with future challenges. In contrast, the UK Government has created policy uncertainty and undermined investor confidence in energy. I want to be explicit about the priorities for Wales and how we will deliver them.**

Cytundeb Paris sy'n llywio'r agenda ddatgarboneiddio rhyngwladol. Rydym yn gweld datblygiadau cyflym mewn ynni adnewyddadwy, storio a lleihau'r galw. Yn COP22 yn Marrakesh, cyfarfum ag arweinwyr sydd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu cymdeithasau carbon isel a fydd yn fwy cydnerth wrth ymdopi â heriau yn y dyfodol. Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth y DU wedi creu ansicrwydd polisi ac wedi tansilio hyder buddsoddwyr mewn ynni. Rwyf am fod yn eglur ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer Cymru a sut y byddwn yn eu cyflawni.

**This Government remains committed to the ambitions set out in ‘Energy Wales’. I have three clear priorities for this Assembly. First, we will reduce the amount of energy we use in Wales. Second, we will reduce our reliance on energy generated from fossil fuels. Third, we will actively manage the transition to a low-carbon economy. We will drive this transition to deliver maximum benefits for Wales, providing strategic leadership, and reducing uncertainty. We must continue to grow the economy at the same time as reducing emissions and managing affordability. I will ensure our policies and support are aligned and work towards delivering a low-carbon energy system for Wales.**

Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r uchelgeisiau a nodir yn 'Ynni Cymru'. Mae gen i dair blaenoriaeth glir ar gyfer y Cynulliad hwn. Yn gyntaf, byddwn yn lleihau faint o ynni a ddefnyddiwn yng Nghymru. Yn ail, byddwn yn lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil. Yn drydydd, byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli'r broses o newid i economi carbon isel. Byddwn yn llywio'r newid hwn i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, a lleihau ansicrwydd. Mae'n rhaid i ni barhau i dyfu'r economi ar yr un pryd â lleihau allyriadau a rheoli fforddiadwyedd. Byddaf yn sicrhau bod ein polisiau a'n cymorth wedi'u cysoni a'u bod yn gweithio tuag at gyflwyno system ynni carbon isel ar gyfer Cymru.

**First, reducing the energy we use in Wales: we will continue our flagship energy efficiency programmes, focusing on vulnerable people at risk of fuel poverty. This futureproofs homes against rising energy prices, reduces emissions, and helps people stay warm and healthy. We have spent £217 million improving over 39,000 homes in the past five years. Last year, the Nest scheme delivered average energy bill savings of over £400 per household. I know my colleague the Minister for Finance and Local Government is looking at the detail of the autumn statement and discussing Welsh Government priorities for additional spending. When the current building regulations sustainability review is complete, we will turn our attention to improving the energy performance of new buildings.**

Yn gyntaf, lleihau'r ynni a ddefnyddiwn yng Nghymru: byddwn yn parhau â'n rhaglenni effeithlonrwydd ynni blaenllaw, gan ganolbwyntio ar bobl agored i niwed sydd mewn perygl o dlodi tanwydd. Mae hyn yn diogelu cartrefi yn erbyn prisiau ynni sy'n cynyddu, yn lleihau allyriadau, ac yn helpu pobl i gadw'n gynnes ac yn iach. Rydym wedi gwario £217 miliwn yn gwella mwy na 39,000 o gartrefi yn y pum mlynedd diwethaf. Y llynedd, sicrhaodd y cynllun Nyth arbedion cyfartalog ar filiau ynni o fwy na £400 fesul cartref. Rwy'n gwybod bod fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn edrych ar fanylion datganiad yr hydref ac yn trafod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ychwanegol. Pan fydd yr adolygiad cynaliadwyedd rheoliadau adeiladu cyfredol wedi'i gwblhau, byddwn yn troi ein sylw at wella perfformiad ynni adeiladau newydd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Ann Jones) i'r Gadair.*

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

We will build on changes we introduced in 2014 to further reduce the climate impact of new developments in Wales. I anticipate this work will start towards the middle of 2017. We're also increasing investments in public sector energy-efficiency projects. By the end of this financial year, we expect to have invested approximately £35 million in cost-reducing projects. I will continue to work with the Permanent Secretary to consider how we can achieve our energy-efficiency goals on the Welsh Government estate. We will continue to support energy-intensive industries, including steel, to become more energy efficient through our environmental protection scheme. Our scheme alleviates some of the issues of high overall energy costs. However, we continue to call on UK Government to deal with systemic problems of energy pricing for these industries.

Byddwn yn adeiladu ar y newidiadau a gyflwynwyd gennym yn 2014 i leihau ymhellach effaith datblygiadau newydd yng Nghymru ar yr hinsawdd. Rwy'n rhagweld y bydd y gwaith hwn yn dechrau tua chanol 2017. Rydym ni hefyd yn cynyddu buddsoddiadau mewn prosiectau arbed ynni yn y sector cyhoeddus. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, rydym yn disgwyl y byddwn wedi buddsoddi tua £35 miliwn mewn prosiectau lleihau costau. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Ysgrifennydd Parhaol i ystyried sut y gallwn gyflawni ein nodau arbed ynni ar ystâd Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i gefnogi diwydiannau ynni-ddwys, gan gynnwys dur, i fod yn fwy effeithlon o ran ynni drwy ein cynllun gwarchod yr amgylchedd. Mae ein cynllun yn lleddfu rhai o'r materion o ran costau ynni cyffredinol uchel. Fodd bynnag, rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â phroblemau systemig o ran prisio ynni i'r diwydiannau hyn.

**Second, reducing reliance on energy from fossil fuels: this Government's commitment to support renewable energy projects is set out in 'Taking Wales Forward'. It will form a key element of the four cross-cutting strategies driving forward our priorities. The low-carbon transition will impact on how we generate and use electricity and heat, and transform the way we meet our transport needs. As this sector is a major fossil fuel user, I will be working with my colleague Ken Skates, the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, on the joint implications for our portfolios. We are committed to supporting low-carbon vehicles and modal shift for passengers and freight in order to reduce emissions from transport. To deliver secure and affordable low-carbon energy, we need a mix of different technologies and sizes, from community scale to major projects. In the medium term, this means transitioning to low-carbon generation, which includes nuclear. We will maximise the role of renewable generation. Storage and smart technology will play a key enabling role, and carbon capture and other innovations may play a part. We will develop our evidence base to identify the energy pathways delivering the best outcomes for Wales. This will enable us to set ambitious yet realistic targets for renewables, including community energy.**

Yn ail, lleihau'r ddibyniaeth ar ynni o danwydd ffosil: nodir ymrwymiad y Llywodraeth hon i gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yn 'Symud Cymru Ymlaen'. Bydd yn elfen allweddol o'r pedair strategaeth drawsbynciol sy'n llywio ein blaenoriaethau. Bydd newid i garbon isel yn effeithio ar sut yr ydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio trydan a gwres, ac yn newid y ffordd yr ydym yn bodloni ein hanghenion cludiant. Gan fod y sector hwn yn dibynnu'n helaeth ar danwydd ffosil, byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithiwr Ken

Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, ar y goblygiadau ar y cyd i'n portffolios ni. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi cerbydau carbon isel a newid moddol i deithwyr a nwyddau er mwyn lleihau allyriadau o drafnidiaeth. Er mwyn darparu ynni carbon isel sicr a fforddiadwy, mae angen cymysgedd o wahanol dechnolegau o wahanol feintiau, o raddfa gymunedol i brosiectau mawr. Yn y tymor canolig, mae hyn yn golygu newid i gynhyrchu carbon isel, sy'n cynnwys niwclear. Byddwn yn gwneud y manteisio i'r eithaf ar swyddogaeth cynhyrchu adnewyddadwy. Bydd gan storio a thechnoleg glyfar swyddogaeth alluogi allweddol, a gallai dal carbon a datblygiadau arloesol eraill chwarae rhan hefyd. Byddwn yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth i nodi'r llwybrau ynni sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru. Bydd hyn yn ein galluogi i bennu targedau uchelgeisiol ond realistig ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni cymunedol.

**We have established ground-breaking legislative frameworks in relation to planning, natural resource management and decarbonisation, underpinned by our Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. We will implement these strategic frameworks to guide the right energy developments to the right places for Wales.** My aim now is to put mechanisms in place to deliver a clearer and more streamlined system. This will include establishing our national development framework, consulting on our draft marine plan, consulting on our innovative approach to natural resource planning, producing area statements to help identify opportunities for renewable energy, and reflecting this potential within local development plans, establishing the first carbon budgets and low-carbon transition plan, and developing an effective consenting regime for Wales as we receive powers to consent developments up to 350 MW.

Rydym wedi sefydlu fframweithiau deddfwriaethol sy'n torri tir newydd yn gysylltiedig â chynllunio, rheoli adnoddau naturiol a datgarboneiddio, a ategir gan ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn gweithredu'r fframweithiau strategol hyn i arwain y datblygiadau ynni cywir i'r manau cywir i Gymru. Fy nod i yn awr yw rhoi dulliau ar waith i gyflawni system gliriach a symlach. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu ein fframwaith datblygu cenedlaethol, gan ymgynghori ar ein cynllun morol drafft, ymgynghori ar ein dull arloesol o gynllunio adnoddau naturiol, cynhyrchu datganiadau ardal i helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, ac adlewyrchu'r potensial hwn mewn cynlluniau datblygu lleol, sefydlu'r cyllidebau carbon cyntaf a'r cynllun newid i garbon isel, a datblygu trefn ganiatâd effeithiol i Gymru wrth i ni dderbyn pwerau i roi caniatâd i ddatblygiadau hyd at 350 MW.

**I'm grateful to all who contributed to the recent Environment and Sustainability Committee report and the task and finish groups on marine energy and rural energy. We will now focus on implementing the practical recommendations. Where possible, we will streamline the number of consents for a project. The Wales Bill devolves control over onshore oil and gas activity in Wales. Gas plays a role in the transition. However, we must manage its deployment sensibly. I will continue our precautionary approach to unconventional gas activity, including opposing fracking. Coal has played a central role in Wales's economic development. However, we must move to more sustainable energy sources.**

Rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ddiweddar a'r grwpiau gorchwyl a gorffen ar ynni morol ac ynni gwledig. Byddwn yn awr yn canolbwyntio ar weithredu'r argymhellion ymarferol. Pan fo'n bosibl, byddwn yn symleiddio'r broses y mae'n rhaid i brosiectau ei dilyn er mwyn cael caniatâd, gan leihau nifer y ceisiadau y mae'n rhaid eu cyflwyno. Mae Bil Cymru yn datganoli rheolaeth dros weithgareddau olew a nwy ar y tir yng Nghymru. Mae gan nwy swyddogaeth yn y cyfnod o newid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni reoli ei ddefnydd yn synhwyrol. Byddaf yn parhau â'n hymagwedd ragofalus at weithgarwch nwy anghonfensiynol, gan gynnwys gwrthwynebu ffracio. Mae glo wedi chwarae rhan ganolog yn natblygiad economaidd Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni symud at ffynonellau ynni mwy cynaliadwy.

**I agree with the UK Government's proposals to phase out unabated coal-fired generation by 2025. I will shortly be consulting on changes to planning policy to restrict proposals for new coal extraction. I will provide a strong voice for Wales in the wider energy system, sharing our priorities with the UK Government, Ofgem, National Grid and others. This includes supporting renewable generation, including least-cost technologies such as solar and wind, continuing to support emerging technologies such as marine energy, ensuring regulation supports decarbonisation and decentralisation of energy, and making our grid infrastructure fit for purpose.**

Rwy'n cytuno â chynigion Llywodraeth y DU i roi'r gorau yn raddol i ddefnyddio pŵer glo erbyn 2025. Byddaf yn ymgynghori cyn hir ar newidiadau i bolisi cynllunio i gyfyngu ar gynigion newydd i echdynnu glo. Byddaf yn rhoi llais cryf i Gymru yn y system ynni ehangach, gan rannu ein blaenoriaethau â Llywodraeth y DU, Ofgem, y Grid Cenedlaethol ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynhyrchu adnewyddadwy, gan gynnwys technolegau cost leiaf megis ynni haul a gwynt, gan barhau i gefnogi technolegau newydd megis ynni morol, a sicrhau bod rheoleiddio yn cefnogi datgarboneiddio a datganoli ynni, ac yn gwneud ein seilwaith grid yn addas at ei ddiben.

**My third priority is to drive the energy transition to deliver maximum benefits for Wales. We will develop our skills base and provide practical and financial support for energy opportunities that accelerate the low-carbon transition. Wales has opportunities to host major energy projects, which can provide significant benefits to Wales. These include nuclear and marine in Anglesey, and tidal lagoons and innovative energy elements in the Swansea city region bid. We will continue to support generation at different scales, from farm scale to Wylfa Newydd, the largest infrastructure project Wales will see in a generation. We await the outcome of the Hendry tidal lagoons review with interest.**

Fy nhrydedd blaenoriaeth yw llywio'r newid ynni i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru. Byddwn yn datblygu ein sylfaen sgiliau ac yn rhoi cymorth ymarferol ac ariannol i gyfleoedd ynni sy'n cyflymu'r newid i garbon isel. Mae gan Gymru gyfleoedd i gynnal prosiectau ynni mawr, a all gynnig manteision sylweddol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys niwclear a morol yn Ynys Môn, a morlynnoedd llanw ac elfennau ynni arloesol

yng nghais dinas-ranbarth Abertawe. Byddwn yn parhau i gefnogi cynhyrchu ar wahanol raddfeydd, o raddfa fferm i'r Wylfa Newydd, sef y prosiect seilwaith mwyaf y bydd Cymru yn ei weld mewn cenhedlaeth. Rydym yn aros yn eiddgar am ganlyniad adolygiad Hendry o'r morlynnoedd llanw.

**Our Smart Living programme brings together public, private and academic institutions around practical demonstration projects. It will create new business models for low-carbon vehicles, storage and local grid management. We will also continue to work with developers to identify whether new small modular reactors can add value to our skills base in Wales. We will continue to listen, evolving our support to the changing needs of the public sector, businesses and communities. I believe this co-ordinated and coherent approach to energy will deliver a prosperous and secure low-carbon Wales.**

Mae ein rhaglen Byw yn Glyfar yn dwyn ynghyd sefydliadau cyhoeddus, preifat ac academiaidd mewn prosiectau arddangos ymarferol. Bydd yn creu modelau busnes newydd ar gyfer cerbydau carbon isel, storio a rheoli grid lleol. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda datblygwyr i ganfod a oes modd i adweithyddion modiwlaid bach newydd ychwanegu gwerth at ein sylfaen sgiliau yng Nghymru. Byddwn yn parhau i wrando, gan sicrhau bod ein cefnogaeth yn esblygu yn unol ag anghenion newidiol y sector cyhoeddus, busnesau a chymunedau. Rwy'n credu y bydd yr ymagwedd gydgyssylltiedig a chydlynol hwn i ynni yn cyflawni Cymru carbon isel ffyniannus a diogel.

15:44

**David Melding** [BywgraffiadBiography](#)

**Lesley Griffiths** [BywgraffiadBiography](#)

**I thank David Melding for his comments and questions. As I said at the start, our priorities remain as set out in 'Energy Wales: A low carbon transition', 'Green Growth Wales' and other policies that have come forward. If going to COP22 in Marrakesh taught me one thing, it was about the whole decarbonisation agenda and how we need to focus on the different sectors to make sure we achieve those targets. Obviously, energy has now come together in one portfolio, so I thought it important to bring this statement forward.**

Diolch i David Melding am ei sylwadau a'i gwestiynau. Fel y dywedais ar y dechrau, mae ein blaenoriaethau yn parhau i fod yn unol â'r hyn a nodir yn 'Ynni Cymru: Newid carbon isel', 'Twf Gwyrdd Cymru' a pholisïau eraill sydd wedi eu cyflwyno. Os dysgais un peth o fynd i COP22 yn Marrakesh, yr agenda datgarboneiddio gyfan oedd hwnnw a sut y mae angen i ni ganolbwyntio ar y gwahanol sectorau i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r targedau hynny. Yn amlwg, mae ynni wedi ei gasglu at ei gilydd mewn un portffolio erbyn hyn, felly roeddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig cyflwyno'r datganiad hwn.

**In relation to energy efficiency, I think Arbed and Nest are very good schemes and certainly in looking at the outcomes, I think that's absolutely the right way forward if we're going to reach our fuel poverty target. I absolutely take on board what you say about smart meters, and that's a conversation that I've had with the energy companies and with Ofgem.**

O ran effeithlonrwydd ynni, rwy'n meddwl bod Arbed a Nyth yn gynlluniau da iawn ac yn sicr, wrth edrych ar y canlyniadau, rwy'n credu mai dyna'n bendant yw'r ffordd gywir ymlaen os ydym ni'n mynd i gyflawni ein targed tloedi tanwydd. Rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn yr ydych yn ei ddweud am fesuryddion clyfar, ac mae honno'n sgwrs yr wyf wedi ei chael gyda'r cwmnïau ynni ac Ofgem.

**You referred a couple of times to skills being very important in the energy sector, and I couldn't possibly argue with that. I remember when I was the skills Minister several years ago, having a focus on ensuring we had enough people to install solar panels, for instance. But now, because of the UK Government's support being taken away from solar—I'm a big fan of solar—I think we're seeing the number of solar panels being installed reducing, which I think is a great shame. So, it's about ensuring that those skills are right. For instance, on Anglesey in Wylfa Newydd, there is a big focus on ensuring that those skills are there going forward. But you're right; across the board in energy, we need to ensure the appropriate skills are there.**

Gwnaethoch gyfeirio cwpl o weithiau at y ffaith bod sgiliau yn bwysig iawn yn y sector ynni, ac ni allwn yn fy myw ddadlau â hynny. Rwy'n cofio pan oeddwn yn Weinidog Sgiliau sawl blwyddyn yn ôl, roi pwyslais ar sicrhau bod gennym ddigon o bobl i osod paneli solar, er enghraifft. Ond nawr, oherwydd bod cefnogaeth Llywodraeth y DU yn cael ei dynnu oddi ar ynni'r haul—rwy'n gefnogol iawn o ynni'r haul—rwy'n credu ein bod yn gweld y nifer o baneli solar sy'n cael eu gosod yn lleihau, a chredaf fod hynny'n drueni mawr. Felly, mae'n ymwneud â sicrhau bod y sgiliau hynny yn iawn. Er enghraifft, ar Ynys Môn yn Wylfa Newydd, mae pwyslais mawr ar sicrhau bod y sgiliau hynny ar gael yn y dyfodol. Ond rydych chi yn llygad eich lle; ar draws pob sector ynni, mae angen i ni sicrhau bod y sgiliau priodol yno.

**You mentioned the private sector having a role to play in two ways: businesses have a role to play, and I think it's really important, if we're going to have that energy mix that we want to see and that security, that we need to ensure that we attract private sector funding also. But I think you are right; we need to ensure that companies are energy efficient and that we are encouraging them to—as I said, the first priority is to reduce the usage in Wales.**

Gwnaethoch sôn bod gan y sector preifat swyddogaeth mewn dwy ffordd: mae gan fusnesau ran i'w chwarae, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, os ydym ni'n mynd i gael y gymysgedd ynni y mae ei eisiau arnom a'r diogelwch hwnnw, bod angen i ni sicrhau ein bod yn denu cyllid sector preifat hefyd. Ond rwy'n credu eich bod yn iawn;

mae angen inni sicrhau bod cwmnïau yn effeithlon o ran ynni a'n bod ni yn eu hannog i—fel y dywedais, y flaenoriaeth gyntaf yw lleihau'r defnydd yng Nghymru.

**Prices also have a hugely important role to play. We haven't got the powers over those, that's the UK Government, and I know the First Minister has written, I think, to the Prime Minister and also to the appropriate Secretary of State in relation to reducing costs also.**

Mae gan brisiau swyddogaeth hynod bwysig hefyd. Nid oes gennym y pwerau dros y rheiny, Llywodraeth y DU sydd â'r pwerau hynny, ac rwy'n gwybod bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu, rwy'n credu, at y Prif Weinidog, a hefyd at yr Ysgrifennydd Gwladol priodol ynglŷn â lleihau costau hefyd.

**You mentioned carbon budgets. The timing of the regulations were actually previously discussed and agreed in this Chamber, I think as the environment Bill was going through. It was voted on and that's how those dates were set. But I am now in the process of setting that carbon budget. I think you're right; they will be hugely beneficial.**

Soniasoch am y cyllidebau carbon. A dweud y gwir, trafodwyd a chytunwyd ar amseriad y rheoliadau o'r blaen, yn y Siambr hon, rwy'n meddwl i ni ei drafod yn ystod hynnt Bil yr amgylchedd. Pleidleisiwyd ar hynny a dyna sut y pennwyd y dyddiadau hynny. Ond yr wyf yn awr yn y broses o bennu'r gyllideb garbon honno. Rwy'n meddwl eich bod yn iawn; byddant yn hynod o fuddiol.

**On electric vehicles and, as you mentioned, taxi fleets, I was talking to the deputy mayor of Oslo in Marrakesh and that's one of their ambitions—that all taxi fleets will be electric vehicles going forward. We have to get the infrastructure in place. People are telling me, you know, that they would buy an electric vehicle but they can't charge it up, and local authorities are saying they're not installing charging points because not enough people have got electric vehicles. So, I think I do need to have a look at where we can target support to make sure that circle is rectified, to make sure that's not a barrier for people having electric vehicles going forward.**

O ran cerbydau trydan ac, fel y soniasoch, fflydoedd tacsï, roeddwn i'n siarad â dirprwy faer Oslo yn Marrakesh a dyna un o'u huchelgeisiau nhw—y bydd yr holl fflydoedd tacsï yn gerbydau trydan yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni gael y seilwaith yn ei le. Mae pobl yn dweud wrthyf, chi'n gwybod, y byddent yn prynu cerbyd trydan ond ni allant ei wefru, ac mae awdurdodau lleol yn dweud nad ydynt yn gosod pwyntiau gwefru oherwydd nad oes gan ddigon o bobl gerbydau trydan. Felly, rwy'n meddwl bod angen i mi ystyried lle y gallwn dargedu cefnogaeth i sicrhau bod y cylch hwnnw'n cael ei ddatrys, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n rhwystro pobl rhag cael cerbydau trydan yn y dyfodol.



**On renewable targets, I'm very keen to have some targets, but again, because of the paucity of the UK Government support, I don't want to set a target that's not achievable. We need to make sure that we're realistic and pragmatic about this, but I think, going forward, we need to have those targets in place.**

O ran targedau adnewyddadwy, rwy'n awyddus iawn i gael rhywfaint o dargedau, ond unwaith eto, oherwydd y prinder cefnogaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, nid wyf yn dymuno pennu targed na allwn ei gyflawni. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n realistig ac yn ymarferol am hyn, ond rwy'n meddwl, wrth symud ymlaen, bod angen inni gael y targedau hynny ar waith.

**In relation to the legislation, we've got the legislation in place now and it's about—you know, now we need to deliver on that legislation that we've got in place. It will help, I think, for us to have the right, secure energy mix that we want going forward.**

O ran y ddeddfwriaeth, mae'r ddeddfwriaeth ar waith gennym yn awr ac mae'n ymwneud â—wyddoch chi, mae angen i ni gyflawni ar y ddeddfwriaeth hon sydd ar waith. Bydd yn helpu, rwy'n meddwl, i ni gael y gymysgedd ynni briodol, diogel yr ydym ei heisiau wrth symud ymlaen.

15:57

**Simon Thomas** [BywgraffiadBiography](#)

**Lesley Griffiths** [BywgraffiadBiography](#)

**Neil Hamilton is just so negative. You really need to recognise what we're trying to achieve with decarbonisation. It's about security of energy mix, which I am aware the UK Government are also responsible for. It's about cost and affordability and it's about decarbonisation. You go on about China and India et cetera; I'm focusing on Wales, and it's not just about cutting carbon emissions, it's about the economic benefits for Wales, and it's about what these new technologies can do for the people of Wales. You talk about energy efficiency; that's exactly what Arbed and Nest have done. I mentioned in my statement 39,000 homes. You're quite right about insulation. It's really important that people's homes are insulated correctly, and we have assisted with that. You mentioned the National Grid, and I know the First Minister has met recently with the National Grid. We recognise we have to expand. You talked about when wind turbines aren't turning, and it's really important that we have the storage there for when that happens, and that is an important part of that.**

Mae Neil Hamilton mor negyddol. Mae gwir angen i chi gydnabod yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni gyda datgarboneiddio. Mae'n ymwneud â diogelwch y cymysgedd ynni, ac rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am hynny hefyd. Mae'n ymwneud â chost a fforddiadwyedd ac mae'n ymwneud â datgarboneiddio. Rydych chi'n son yn ddibaid am Tsieina ac India ac ati; rwyf i'n canolbwyntio ar Gymru, ac nid yw hyn

yn ymwneud â thorri allyriadau carbon yn unig, mae'n ymwneud â'r manteision economaidd i Gymru, ac mae'n ymwneud â'r hyn y gall y technolegau newydd hyn yn ei wneud i bobl Cymru. Rydych chi'n sôn am effeithlonrwydd ynni; dyna'n union beth y mae Arbed a Nyth wedi ei wneud. Soniais yn fy natganiad am 39,000 o gartrefi. Rydych chi'n hollol gywir am inswleiddio. Mae'n bwysig iawn bod cartrefi pobl yn cael eu hinswleiddio'n gywir, ac rydym wedi cynorthwyo â hynny. Soniasoch am y Grid Cenedlaethol, ac rwy'n gwybod bod y Prif Weinidog wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Grid Cenedlaethol. Rydym ni'n cydnabod bod yn rhaid i ni ehangu. Soniasoch am yr adegau pan nad yw tyrbinau gwynt yn troi, ac mae'n bwysig iawn ein bod gennym y gallu i storio pan fydd hynny'n digwydd, ac mae hynny'n rhan bwysig o hyn.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

**As you say, you raised in questions with me windfarms and tourism, for instance, and I've looked into the visual impact and the research that's been done in relation to that, not just here in Wales but also in Scotland. It consistently shows that the majority of people support wind development, or they have absolutely no objection at all, and there is no consistent impact, for instance, on house prices. The Scottish Government have done some research on this to show that there's no impact at all from wind developments.**

Fel yr ydych yn dweud, codwyd ffermydd gwynt a thwristiaeth gennych, er enghraifft, yn ystod y cwestiynau i mi, ac rwyf wedi edrych ar yr effaith weledol a'r ymchwil sydd wedi ei wneud ynglŷn â hynny, nid yn unig yma yng Nghymru ond hefyd yn yr Alban. Mae'n dangos yn gyson bod y rhan fwyaf o bobl yn cefnogi datblygiad gwynt, neu nid oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad o gwbl, ac nid oes unrhyw effaith cyson, er enghraifft, ar brisiau tai. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ar hyn sy'n dangos nad oes unrhyw effaith o gwbl o ddatblygiadau gwynt.

**As I said, I'm passionately in favour of windfarms in the correct place. You don't want them all together—well, that's why we have the strategic search areas. We put the large ones together there to save them from being on every mountain top, as you referred to. I don't see it as a conflict of interest. I know there are issues with Powys County Council. I know they've recently consulted on proposals to identify areas for wind and solar developments in their local development plan. I'm very keen that their LDP isn't found to be unsound, so I've made sure that they've had support from Government officials through regular meetings, and other forms of assistance going forward. What they need to do, each local planning authority, when they're looking at wind turbines or windfarms, for instance, they've got to look at their overall vision and strategy for renewable energy development in their area to make sure that their international and their national statutory obligations to protect designated areas or species or habitats are observed.**

Fel y dywedais, rwy'n frwdfrydig o blaid ffermydd gwynt yn y man cywir. Nid ydych chi eisiau iddynt fod i gyd gyda'i gilydd—wel, dyna pam y mae gennym yr ardaloedd chwilio strategol. Rydym yn rhoi y rhai mawr gyda'i gilydd i'w harbed rhag bod ar ben bob mynydd, fel y dywedasoch. Nid wyf yn ei ystyried yn wrthdaro buddiannau. Rwy'n

gwybod bod materion gyda Chyngor Sir Powys. Rwy'n gwybod eu bod wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynigion i nodi meysydd ar gyfer datblygiadau gwynt a haul yn eu cynllun datblygu lleol. Rwy'n awyddus iawn na chanfyddir bod eu cynllun datblygu lleol yn gadarn, felly rwyf wedi gwneud yn siŵr eu bod wedi cael cefnogaeth gan swyddogion y Llywodraeth drwy gyfarfodydd rheolaidd, a bydd mathau eraill o gymorth wrth symud ymlaen. Yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, pob awdurdod cynllunio lleol, pan fyddant yn edrych ar dyrbinau gwynt neu ffermydd gwynt, er enghraifft, mae'n rhaid iddyn nhw ystyried eu gweledigaeth a'u strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yn eu hardal i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at eu rhwymedigaethau statudol rhyngwladol a chenedlaethol i ddiogelu ardaloedd neu rywogaethau neu gynefinoedd dynodedig.